

Enw'r Polisi:	<b>Polisi Llwybrau Gyrfa Academaidd</b>	Rhif y Polisi: <b>P1516-122</b>
Perchennog y Polisi:	<b>Charlie James, Arweinydd Trawsnewidiol:Perfformiad, Adnoddau Dynol</b>	
Dyddiad Cyhoeddi/Adolygu Diwethaf: <b>Gorffennaf 2024</b>		Dyddiad Adolygu Nesaf: <b>Awst 2025</b>
Deddfwriaeth berthnasol / canllawiau ACAS os yw'n berthnasol:		<b>Dd/B</b>
Dogfennau sy'n cael eu disodli:		<b>Amherthnasol</b>
<b>Datganiad Polisi:</b>		
<p>I gyflawni ein huchelgais, mae angen gweithlu arnom â'r sgiliau amrywiol angenrheidiol i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr; ac i fod yn bwerdy ar gyfer economi'r rhanbarth ac yn rhyngwladol.</p> <p>Dyluniwyd cynllun y Llwybrau Gyrfa Academaidd i sicrhau bod cryfderau academaidd, boed mewn ymchwil, addysgu, profiad ehangach y myfyrwyr, arweinyddiaeth, neu arloesi ac ymgysylltu, i gyd yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo mewn modd priodol. Mae'r meini prawf ACP wedi cael eu hadolygu'n ofalus i sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn deg.</p> <p>Nod y meini prawf ACP yw rhoi arwydd o'r canlyniadau a ddisgwylir ar gyfer pob gradd ar y raddfa academaidd. Caiff y meini prawf eu defnyddio i lywio penderfyniadau paneli cyfweld academaidd, pwyllgorau dyrchafu a phwyllgorau Cydnabyddiaeth Ariannol Athrawon. Dylent gynorthwyo aelodau staff sy'n ystyried cyflwyno cais am ddirchafiad ac ymgeiswyr allanol sy'n cyflwyno ceisiadau am swyddi academaidd yn y Brifysgol. Gan ystyried yr ystod o weithgarwch academaidd, ni all y meini prawf fod yn rhywbeth terfynol ond byddant yn ganllaw da.</p> <p>Gall staff academaidd symud rhwng llwybrau ar gamau priodol yn eu gyrfaedd. Gall hyn gael ei ysgogi gan yr aelod o staff neu ei reolwr llinell yn ystod y broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol (ADP). Y Dirprwy Is-ganghellor a Deon Gweithredol y Gyfadran sydd â'r penderfyniad terfynol ar gais i symud llwybr gyrfa. Caiff y penderfyniad ei lywio gan flaenoriaethau'r Gyfadran, galwadau presennol ar y gweithlu a modelau llwyth gwaith a dylai hyn fod yn rhan o'r broses Cynllunio Busnes. Os cytunir bod aelod o staff yn newid ei Lwybr Gyrfa Academaidd, bydd newidiadau i ddisgrifiadau swydd a llwyth gwaith yn cael eu cadarnhau yn unol â hynny.</p>		
<b>Diffiniadau o dermau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:</b>		
Amherthnasol		
<b>Gweithdrefnau cefnogol/dogfennau cyfarwyddwyd/codau ymarfer gyda rhifau polisiâu a hyperddolenni:</b>		
<a href="#">Meini Prawf Llwybrau Gyrfa Academaidd</a>		
<a href="#">Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol</a>		